

Digimap for Schools

Digimap for Schools i gynorthwyo TGAU

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 4



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Teitl: Digimap for Schools i gynorthwyo TGAU

Sgiliau defnyddio mapiau ym manylebau cyfredol arholiadau

Rhestrir isod y sgiliau cyffredin y cyfeirir atynt mewn manylebau arholiad cyrff arholi. Gall Digimap for Schools a'i declynnau fod o gymorth i ddatblygu'r **rhai mewn coch**).

Caiff myfyrwyr eu hasesu o ran eu gallu i:

- Adnabod symbolau (drwy ddefnyddio allwedd), cyfeiriadau grid pedwar a chwe ffigur, yn ogystal â phellteroedd llinell syth a throellog.
- Dangos dealltwriaeth o gyfeiriad, gan ddefnyddio cwrmpawd with pwynt.
- Dangos dealltwriaeth o sut i adeiladu traws-adrannau.

Mae cyfuchliniau wedi'u dynodi ar y map. Er nad yw Digimap for Schools yn cynnig teclyn trawsadrannol, gellir ei ddefnyddio i edrych ar uchderau tir ar hyd llinell syth ar fap. Gellir argraffu mapiau ar raddfeydd priodol hefyd er mwyn gosod data trawsadrannol â llaw.

- ch Cwblhau ac anodi traws-adrannau, gan gynnwys uchder a graddfa llethr a **phatrymau cyfuchliniau syml**.
- Adnabod a disgrifio patrymau o lystyfiant, defnydd o dir a chyfathrebiadau.

Gellir datblygu'r sgiliau hyn gan ddefnyddio'r lefel glosio briodol. Darperir allwedd i ar gyfer pob math o fap yn y gwasanaeth.

- dd Disgrifio ac amlygu **safle, sefyllfa a siâp yr aneddiadau**.
- Adnabod a disgrifio **dosbarthiadau a phatrymau nodweddion dynol a ffisegol**.
- Casglu gwybodaeth am weithgarwch dynol o dystiolaeth ar fap, gan gynnwys twristiaeth** - mae twristiaeth yn nodwedd o bwys ym mapiau'r Arolwg Ordnans, yn enwedig ar raddfa 1: 25 000.
- ff **Defnyddio mapiau mewn cysylltiad â ffotograffau**, brasluniau a chyfarwyddiadau ysgrifenedig. Gellir ychwanegu delweddau hyd at 10 Mb o ran maint at fapiau – gall y rhain gynnwys delweddau wedi'u gwneud o siartiau Excel hefyd.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Sgiliau defnyddio mapiau ym meini prawf newydd pynciau TGAU

Byddwch eisoes yn gwybod bod pynciau TGAU yn newid. Ym mis Mehefin 2013, anfonodd yr Adran Addysg ganllawiau i'r cyrff dyfarnu er mwyn iddynt greu manylebau newydd ar gyfer arholiadau, mewn cysylltiad â chanllawiau OFQUAL.

Gall *Digimap for Schools* fod o gymorth gyda'r adrannau isod sydd mewn coch. **Gall hyn newid gan fod manylebau newydd yn cael eu paratoi yn 2014, a'u haddysgu am y tro cyntaf yn 2015.**

Dylai manylebau TGAU fynnu bod myfyrwyr yn gallu datblygu a dangos:

Gwybodaeth am leoedd

Daearyddiaeth y Deyrnas Unedig - **gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddaearyddiaeth y Deyrnas Unedig** gan gynnwys ei **thirluniau ffisegol a dynol**, heriau amgylcheddol, economi sy'n newid, pwysigrwydd ffactorau diwylliannol a gwleidyddol, a'i chysylltiadau â'r byd ehangach.

Daearyddiaeth ffisegol

Prosesau geomorffig a thirwedd - sut mae prosesau geomorffig (fel hindreuliad, llethrau'n symud ac erydiad gan ddŵr, gwynt a rhew) wedi dylanwadu, ac yn parhau i ddylanwadu, ar dirwedd y Deyrnas Unedig a sut mae'r prosesau hynny'n cydblethu â gweithgarwch dynol. **Dylai hyn gynnwys cyfeiriadau manwl at dirweddau ffisegol penodol yn y Deyrnas Unedig (er enghraifft, sialc, calchfaen, rhewlifol, dyddodiad arfordirol neu ddyffryn afon).**

Mapiau

Defnyddio amrywiaeth o fapiau, atlasau, **mapiau'r Arolwg Ordnans**, delweddau lloeren a deunyddiau graffeg a digidol eraill, gan gynnwys defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS), i ganfod, dangos, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ddaearyddol. Bydd hyn yn cynnwys **gwneud mapiau a brasluniau i gyflwyno a dehongli gwybodaeth ddaearyddol.**

Gwaith maes

Ymgymryd â dulliau gwahanol o waith maes mewn o leiaf dau amgylchedd sy'n cyferbynnu er mwyn edrych ar brosesau ffisegol a dynol a'r cysylltiadau rhyngddynt (er enghraifft, stryd mewn dinas, traeth, coetir, ystad drefol, ymylon rhostir). Dylai hyn gynnwys casglu data ffisegol a dynol sylfaenol.

Defnyddio data

Casglu, dehongli, dadansoddi, cyflwyno, defnyddio a gwerthuso data sylfaenol ac eilaidd. Dylai hyn gynnwys: data gwaith maes, deunyddiau systemau gwybodaeth ddaearyddol, ffynonellau llyfrgell a digidol, data gweledol a graffigol, yn ogystal â gwybodaeth rifol ac ystadegol.

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

